

# Cyngor Trydydd Sector Caerdydd

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol



## 4. Gwirfoddolwyr

### 4.24 Cynnwys gwirfoddolwyr o dramor

#### **Pam cynnwys gwirfoddolwyr o dramor?**

Mae llawer o fudiadau yng Nghymru yn mynd ati i geisio denu gwirfoddolwyr rhyngwladol sy'n byw yng Nghymru a'r rheini sydd dramor. Ymysg y rhesymau dros wneud hyn y mae:

- Creu cyfleoedd i bobl yn y mudiad ddysgu am wlad a/neu ddiwylliant arall;
- Ehangu proffil gwirfoddolwyr y mudiad i greu mwy o amrywiaeth a chyfleoedd i ddysgu;
- Hyrwyddo cyfnewid a dealltwriaeth ryngwladol;
- Datblygu rhwydweithiau newydd a chyfleoedd ar gyfer prosiectau cydweithredol;
- Hyrwyddo diwylliant Cymru a darparu cyfleoedd i ddysgu a/neu integreiddio;
- Ennill safbwyntiau newydd gan wirfoddolwyr sy'n mynd ati i gyflawni tasgau â safbwynt gwahanol;
- Sicrhau bod timau gwaith/gwirfoddol yn adlewyrchu yn fwy yr amrywiaeth sy'n bodoli yng Nghymru.

Bydd gan wirfoddolwyr hefyd resymau amrywiol dros wirfoddoli yng Nghymru megis:

- Datblygu sgiliau iaith a galluoedd rhyngddiwylliannol;
- Cynyddu cyflogadwyedd drwy ddatblygu sgiliau mewn maes penodol;
- Ennill safbwynt gwahanol ynglŷn ag ardal sydd o ddiddordeb iddynt;
- Teithio a chael blas ar fywyd mewn gwlad wahanol;
- Dysgu mwy am Gymru a'i diwylliant.

#### **Creu lleoliadau llwyddiannus i wirfoddolwyr o dramor**

Mae angen cadw at union yr un egwyddorion arfer da ar gyfer gwirfoddolwyr o dramor â'r rheini ar gyfer gwirfoddolwyr lleol. Gweler y [taflenni gwybodaeth eraill yn y gyfres hon](#) i gael cyngor cyffredinol ar reoli gwirfoddolwyr yn llwyddiannus.

Ceir rhai pwyntiau ychwanegol a all fod yn berthnasol i wirfoddolwyr o dramor, gan ddibynnu ar eu hamgylchiadau:

- Dylid sicrhau bod gan yr unigolyn hawl gyfreithiol i wirfoddoli gyda'ch mudiad. Cyfrifoldeb y gwirfoddolwr yw cael gafael ar y fisa gywir. I ddangos bod gwiriadau diwydrwydd dyladwy wedi'u cynnal, byddai'n syniad da i chi wneud copi o'r dogfennau perthnasol i'w cadw'n ddiogel gyda data arall Adnoddau Dynol. Gweler isod i gael mwy o wybodaeth am hyn.
- Efallai y bydd angen i chi ystyried ffactorau ychwanegol, gan gynnwys mesurau asesu risg ychwanegol. Er enghraifft, os ydych yn cynnal gwirfoddolwr preswyl gall fod arno angen cymorth ychwanegol pan nad yw'n gwirfoddoli: mae cymorth gan wirfoddolwyr rhyngwladol eraill yn arbennig o fuddiol yn hyn o beth. Dylid sicrhau bod eich yswiriant yn cynnwys gwirfoddolwyr o dramor. Efallai y bydd angen i chi addasu'ch gweithdrefnau mewn argyfwng, i ystyried trefniadau ailwladoli mewn argyfwng a chadw llygad ar gyngor teithio gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad.
- Efallai y bydd angen i chi gael gwybodaeth ychwanegol i gefnogi gwirfoddolwr o dramor, megis eglurhad ynghylch cymwysterau anghyfarwydd, gwybodaeth ychwanegol am faterion iechyd (yn enwedig ar gyfer gwirfoddolwyr preswyl), trefniadau teithio a gallu ieithyddol.
- Efallai y bydd angen i chi ystyried yswiriant, yn enwedig yswiriant iechyd. Os ydynt yn dod o wlad yn yr Undeb Ewropeaidd/ Ardal Economaidd Ewropeaidd dylent gael eu cynnwys gan drefniadau iechyd cyfatebol (o leiaf tan Brexit yn 2019), ond ddim os ydynt yn dod o'r tu allan i Ewrop yn ôl pob tebyg.
- Dylid ei gwneud hi'n glir a oes angen i wirfoddolwyr wneud eu trefniadau teithio a llety eu hunain, ynteu a yw'r rhain yn cael eu darparu (yn enwedig yn achos gwirfoddolwyr sy'n dod i'r Deyrnas Unedig yn unswydd i wirfoddoli gyda'ch mudiad).
- Ar gyfer rolau sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc ac oedolion agored i niwed, gall darpar wirfoddolwyr gael gwiriad drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Gan y gall hyn gymryd mwy o amser i'w gwblhau i bobl nad ydynt yn ddinasyddion y DU, mae'n syniad da dechrau'r broses ar y cyfle cyntaf posib. Mae rhai mudiadau yn defnyddio 'Tystysgrif Ymddygiad Da' fel rhan o'u proses sgrinio wrth recriwtio (gweler Atodiad A).
- Efallai y bydd ar wirfoddolwyr o dramor angen cymorth y tu hwnt i gymorth penodol ar gyfer tasgau, yn enwedig os ydynt yn newydd i'r ardal. Pan fo'n bosib mae hi bob amser yn fuddiol penodi 'mentor' ar gyfer gwirfoddolwyr.
- Gall fod gan wirfoddolwyr o dramor wahanol ddisgwyliadau o'r lleoliad gwirfoddol; oherwydd gwahaniaethau diwylliannol neu agwedd bersonol. Mae cyfathrebu'n bwysig yma.
- Mae cwrs cynefino/hyfforddi bob amser yn bwysig wrth weithio gyda gwirfoddolwyr ond gall fod yn bwysicach fyth gyda gwirfoddolwyr rhyngwladol. Mae hyn yn ffordd dda o egluro'r rôl a'r cyfrifoldebau, y disgwyliadau, ac yn y blaen.
- Dylid sicrhau bod eich gwirfoddolwr yn teimlo'n rhan o'r tîm a bod yn ymwybodol y gall gwirfoddolwr o dramor ei chael yn anos integreiddio, yn enwedig os oes rhwystrau iaith neu wahaniaethau diwylliannol. Efallai y bydd yn cymryd amser i ymgynefino â lle newydd a rôl newydd.

- Dylid osgoi gwneud rhagdybiaethau diwylliannol – peidiwch â rhagdybio bod pethau'r un fath, na bod pethau'n wahanol! Byddwch yn ymwybodol o amrywiadau diwylliannol yn iaith y corff, arferion ymddygiad, agweddau at waith a disgwyladau cymdeithasol. Cofiwch, y rhain sy'n gwneud cyswllt â phobl o wahanol ddiwylliannau mor ddiddorol, felly, cadwch y cyfathrebu'n agored a chymryd agwedd bositif tuag at wahaniaethau.
- Gellid annog gwirfoddolwyr i rannu rhywbeth am eu profiad a'u gwlad, megis dysgu caneuon, gemau neu roi sgwrs neu gyflwyniad.

## Yr hawl i wirfoddoli?

Ni waeth beth yw cymhelliant neu gefndir gwirfoddolwr, rhaid cymryd gofal i sicrhau bod gan unigolion sy'n dod i'r Deyrnas Unedig yr hawl i wirfoddoli yn y wlad hon a bod cofnodion yn cael eu cadw i ddangos bod gwiriadau diwydrwydd dyladwy wedi'u cwblhau. Mae rheolau ynglŷn â mewnfudo a gofynion fisa yn gymhleth. Arweiniad cyffredinol yn unig yw'r wybodaeth hon. Os oes unrhyw amheuaeth ynglŷn â hawl rhywun i wirfoddoli, dylid cysylltu â [Fisâu a Mewnfudo y DU](#) (Asiantaeth Ffiniau'r DU gynt – bellach yn rhan o'r Swyddfa Gartref).

## Recriwtio gwirfoddolwyr yn uniongyrchol o dramor

Mae gwirfoddoli rhyngwladol yn boblogaidd ymysg myfyrwyr a phobl ifanc, ond mae oedolion hŷn yn aml hefyd yn chwilio am ffyrdd o deithio, ennill profiadau newydd a defnyddio'r sgiliau sydd ganddynt i wirfoddoli.

Nid oes ar ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd<sup>1</sup> angen fisa i wirfoddoli yng Nghymru ar hyn o bryd. O fis Ebrill 2019 ymlaen mae disgwyl y bydd y DU yn rhan o Raglen Hepgor Fisa gyda'r UE.

Os yw'ch mudiad am ddenu gwirfoddolwr neu weithiwr gwirfoddol yn uniongyrchol o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd/Ardal Economaidd Ewropeaidd gallwch ymgeisio i fod yn fudiad noddi (codir ffi, tua £500-£1,500, gan ddibynnu ar faint y mudiad). Golyga hyn eich bod wedi'ch trwyddedu i roi tystysgrifau noddi i wirfoddolwyr fel y gallant wneud cais am fisa. I gael arweiniad pellach ar wneud hyn, gweler gwefan [Fisâu a Mewnfudo y DU](#).

Neu fel arall, gall fod yn fwy priodol i fudiadau llai sydd heb yr adnoddau i fod yn fudiad noddi ddenu gwirfoddolwyr rhyngwladol drwy fudiad cydlynu (e.e. UNA Cyfnewid).

## Recriwtio gwirfoddolwyr o dramor sydd eisoes yn y Deyrnas Unedig

Gall hyn gynnwys myfyrwyr rhyngwladol, y rheini sydd wedi dod i weithio ond sydd hefyd am wirfoddoli, perthnasau myfyrwyr neu weithwyr o dramor, neu geiswyr lloches sydd wedi gwneud cais am yr hawl i aros yn y Deyrnas Unedig.

Unwaith eto, mae'n bwysig gwirio statws mewnfudo'r unigolyn, gan gynnwys unrhyw amodau ynghlwm wrth y math o fisa neu amodau hawl mynediad. Yn gyffredinol, pan fo rhyddid i weithio, mae hefyd rhyddid i wirfoddoli yn y Deyrnas Unedig. Os oes cyfyngiadau fisa ar y gallu i weithio yna mae angen i chi gymryd gofal ychwanegol. Os oes cyfyngiad ar nifer yr oriau y caiff rhywun weithio, gallai unrhyw oriau a dreulir yn gwirfoddoli gyfrif tuag at hyn.

Cyfrifoldeb yr unigolyn yw gweithredu o fewn yr hyn a ganiateir yn ei fisa. Gallai methu â gwneud hyn beryglu ei statws mewnfudo.

Dylai mudiadau fod yn ofalus i beidio â chreu 'contract cyflogaeth' yn ddiarwybod. Gallai gwneud hynny beryglu statws mewnfudo'r rheini nad yw eu fisa yn caniatáu iddynt weithio yn y wlad hon. Cymerwch ofal i sicrhau bod gwirfoddolwyr yn cael eu rhoi mewn cynlluniau gwirfoddoli *bone fide*, heb ddim rhwymedigaethau dan contract, dim treuliau (ac eithrio costau teithio a phrydau bwyd) a bod gwirfoddolwyr yn deall unrhyw risgiau cysylltiedig.

Ceir rhai categorïau penodol o bobl sy'n dod i'r Deyrnas Unedig sy'n cael eu gwahardd yn benodol rhag gwirfoddoli:

- Unrhyw un ar **fisa ymwelydd** neu **fisa myfyriwr sy'n ymwelydd**
- **Au pairs**

Dylai'r rheini sydd â **fisa myfyriwr** (sy'n wahanol i fisa myfyriwr sy'n YMWELYDD) fod â'r hawl i wirfoddoli, ond dylech gadarnhau hyn rhag ofn bod unrhyw gyfyngiadau penodol.

Mae **ceiswyr lloches** yn cael gwirfoddoli gydag elusennau cofrestredig, mudiadau gwirfoddol a chyrrff sy'n codi arian i'r naill neu'r llall. Ar ôl llobio diweddar, deallir bod gwirfoddoli mewn sectorau statudol hefyd fel y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn dderbyniol, ond mae newidiadau yng nghanllawiau ysgrifenedig y llywodraeth ar hyn eto i'w gwneud. Mae ceiswyr lloches aflwyddiannus sydd naill ai'n aros i apelio neu'n aros i gael eu halltudio hefyd yn cael gwirfoddoli.<sup>3</sup>

Mae **ffoaduriaid**, sydd â statws ffoadur neu ganiatâd eithriadol i aros yn y Deyrnas Unedig, yn cael gwirfoddoli.

## Cyfeiriadau

1. Hynny yw, Awstria, Gwlad Belg, Cyprus, Y Weriniaeth Tsiec, Denmarc, Estonia, Ffrainc, Ffindir, Yr Almaen, Gwlad Groeg, Hwngari, Iwerddon, Yr Eidal, Latfia, Lithwania, Lwcsembwrg, Malta, Yr Iseldiroedd, Gwlad Pwyl, Portiwgal, Slofacia, Slofenia, Sbaen, Sweden. Ers mis Ionawr 2014, mae rhyddid i symud a gweithio wedi'i ymestyn i Fwlgaria a Rwmania.

2. Gwlad yr Iâ, Norwy, Liechtenstein a'r Swistir
3. Gweler yr erthygl yng [nghylchgrawn Third Sector](#), Hydref 2013, sy'n datgan y gall ceiswyr lloches, gan gynnwys ceiswyr lloches sydd wedi methu yn eu cais, wirfoddoli i fudiadau elusennol neu gyrff sector cyhoeddus.

## **Gwybodaeth Bellach**

Mae nifer o raglenni sefydledig yn bodoli i gefnogi datblygiad cyfleoedd gwirfoddoli rhyngwladol yng Nghymru. Mae'r rhain fel arfer yn canolbwyntio ar gyfleoedd preswyl, yn amrywio o rai wythnosau i flwyddyn.

Gall cyfleoedd i gynnwys gwirfoddolwyr o dramor godi drwy raglenni Ewropeaidd EACEA (Education, Audiovisual and Culture Executive Agency).

Mae'r [Gwasanaeth Gwirfoddol Rhyngwladol](#) yn croesawu 20 – 30 o wirfoddolwyr y flwyddyn o bob oed mewn lleoliadau am hyd at 12 mis gyda phartneriaid ym Mhrydain, ac yn recriwtio mentoriaid gwirfoddol i'w cefnogi.

[Fisâu a Mewfudo y DU](#) – gwybodaeth am fisâu, gan gynnwys sut i ymgeisio

[Arweiniad ar wiriadau cofnodion troseddol i ymgeiswyr o dramor](#)

Mae [UKCISA \(UK Council for International Student Affairs\)](#) yn cynghori myfyrwyr rhyngwladol a'r rheini sy'n gweithio gyda nhw

Mae'r elusen gwirfoddoli rhyngwladol [UNA Cyfnewid](#) wedi'i lleoli yng Nghaerdydd gan weithio ledled Cymru i gydlynu cyfleoedd i fudiadau dielw groesawu gwirfoddolwyr o bob cwr o'r byd. Mae'r rhain yn amrywio o wersylloedd gwirfoddoli preswyl pythefnos o hyd, i leoliadau 12 mis, gyda chymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru a'r Comisiwn Ewropeaidd. Fel aelod o'r Pwyllgor Cydlynu ar gyfer Gwasanaeth Gwirfoddol Rhyngwladol, sy'n gysylltiedig ag UNESCO, mae UNA Cyfnewid hefyd yn cynorthwyo unigolion o Gymru i wirfoddoli o amgylch y byd a dod â'u profiadau yn ôl adref.

## **Ymwadiad**

Bwriedir y wybodaeth yn y ddalen hon fel arweiniad yn unig. Ni ddylid ei defnyddio yn lle cyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn dim cyfrifoldeb am golled a geir o ganlyniad i'r ffaith bod unrhyw unigolyn yn gweithredu ar y wybodaeth hon neu'n peidio â gweithredu arni.

## Atodiad A – Tystysgrif ymddygiad da

Defnyddir y ddogfen hon gan UNA Cyfnewid, ac mae wedi'i hatgynhychu a'i chyfieithu yma gyda chaniatâd. Ei nod yw asesu gwybodaeth am gofnod troseddol gan wirfoddolwyr o dramor, gan ofyn i bartner-fudiad wirio cofnod heddlu'r darpar wirfoddolwr.

### Yr hanfodion:

- Allbrint o gofnod troseddol y gwirfoddolwr yw tystysgrif ymddygiad da a gellir fel arfer ei gael o'r orsaf heddlu leol am bris bach.
- Dylid anfon y dystysgrif ymddygiad da drwy ffacs gorchuddiedig neu fel atodiad ebost i [cyfeiriad ebost] gan nodi ei fod yn ddeunydd cyfrinachol.
- Gofynnir i bob bartner-fudiad rhyngwladol wirio'r dystysgrif ymddygiad da a llenwi ffurflen wirio i gadarnhau bod y dystysgrif yn ddilys ac nad yw'n dangos dim rheswm pam nad yw'r gwirfoddolwr yn addas i weithio ar y prosiect yr ymgeisiodd ar ei gyfer.
- Dylai gwirfoddolwyr ddod â'r dystysgrif wreiddiol i'r prosiect fel y gallwn ei gwirio ochr yn ochr â'r copi a gafodd ei sganio neu ei ebostio.
- Ni fyddwn yn gofyn i weld tystysgrif ymddygiad da'r ymgeisydd ond os oes ar y prosiect angen y wybodaeth. Ni fydd yn ofynnol i wirfoddolwyr sy'n gweithio ar brosiectau amgylchedd lle na fyddant yn dod i gysylltiad â phlant neu oedolion agored i niwed.
- Mae darparu tystysgrif ymddygiad da yn amod cwbl angenrheidiol er mwyn cymryd rhan mewn prosiect o'r math hwn. Os nad ydym wedi cael y dystysgrif dair wythnos cyn dyddiad dechrau'r prosiect, bydd y gwirfoddolwr yn colli ei le ar y prosiect ac ni fydd yn cael cymryd rhan. Mae'n hanfodol hefyd dod â'r dystysgrif wreiddiol i'r prosiect. Eto, os na ddigwyddith hyn, ni fydd y gwirfoddolwr yn cael cymryd rhan yn y prosiect.

### Gwrthod:

- Os oes gan wirfoddolwr gofnod o gam-drin rhywiol neu gorfforol tuag at eraill, bydd yn cael ei wrthod yn awtomatig.
- Ni ddylai gwirfoddolwyr sydd â chofnod troseddol nad yw'n effeithio ar eu gallu i weithio gyda phlant deimlo na allant wneud cais.

**Cyfrinachedd tystysgrif ymddygiad da:** Dim ond y bobl sydd angen gweld y dystysgrif fydd yn ei gweld. Bydd pawb sy'n gweld y dystysgrif gwybod ei bod yn ddogfen gyfrinachol.

**Canslo:** Mae'n bwysig ein bod yn cael gwybod cyn gynted â phosib os na allwch ddod i brosiect. Unwaith rydych wedi cael cadarnhad o'ch lle, nid ydym fel arfer yn ad-dalu'ch ffi. Serch hynny, os bu'n rhaid canslo oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'ch rheolaeth, efallai y bydd ad-daliad yn cael ei gynnig.

[logo'ch mudiad]

## Tystysgrif Ymddygiad Da – Gwiriad gan Bartner-fudiadau

Cadarnaf fod y ddogfen amgaeedig yn nodi nad oes gan \_\_\_\_\_  
ddim collfarnau troseddol blaenorol a'i fod/bod yn addas i weithio gyda phlant.

**Llofnod:**

**Enw:**

**Mudiad:**

**Swydd:**

**Rhif dogfen y dystysgrif ymddygiad da:**

*Nodwch y gwiriad hwn gyda stamp swyddogol eich mudiad.*

### Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

**Cyngor Trydydd Sector Caerdydd**

*Tŷ Baltic, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH*

**Elusen Gofrestredig: 1068623**

**Ffôn:** 029 2048 5722

[enquiries@c3sc.org.uk](mailto:enquiries@c3sc.org.uk)

**Ffacs:** 029 2046 4196

[www.c3sc.org.uk](http://www.c3sc.org.uk)



Ffôn: 0300 111 0124  
[www.wcva.org.uk](http://www.wcva.org.uk)

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli  
**Wedi ei ddiweddarau: 05/11/2018**